Cymru Masnach Deg
Fair Trade Wales

Cefnogir gan
Lywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government

Cenedl Masnach Deg

Diweddaru'r meini prawf, y mesurau a'r dangosyddion, a'r broses asesu

Gorffennaf 2024

Cynnwys

Cynnwys **2**
Cefndir **3**
Datblygu'r meini prawf **3**
Meini prawf diwygiedig Cenedl Masnach Deg **6**
Y meini prawf, targedau a'r dystiolaeth arfaethedig sy'n ofynnol **6**
1. Mae ymwybyddiaeth eang o Fasnach Deg 6
Targedau 6
Tystiolaeth 7
2. Mae ymgysylltiad sylweddol â Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas 7
Targedau 7
Tystiolaeth 8
3. Mae cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu defnyddio a'u cynhyrchu 8
Targedau 9
Tystiolaeth 9
4. Mae cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltiad â Masnach Deg 10
Targedau 10
Tystiolaeth 10
5. Mae anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas yn cael eu herio gan Fasnach Deg 10
Targed 11
Tystiolaeth 11
Cynnig ar gyfer y broses asesu **11**

Cefndir

Yn 2006, ym mlynyddoedd cynnar datganoli ac ar adeg o ymgyrchu proffil uchel ar faterion tlodi ac anghydraddoldeb byd-eang; ymunodd cymdeithas sifil a llywodraethau'r Alban a Chymru mewn ymrwymiad a rennir. Addawodd y ddwy wlad i ddod yn Genhedloedd Masnach Deg cyntaf y byd, a daethpwyd i gytundeb ar feini prawf ac amcanion dymunol ychwanegol ar gyfer cyflawni statws Cenedl Masnach Deg. Yn 2008, cafodd Cymru statws Cenedl Masnach Deg ac yn 2013, fe lwyddodd yr Alban i ennill y statws hefyd. Ystyriwyd statws Cenedl Masnach Deg fel ffordd o ychwanegu gwerth at ymgyrchoedd Masnach Deg trwy ddarparu a) proses i ymgyrchwyr Masnach Deg gael mwy o ddylanwad ar lefel genedlaethol; b) lifer y gellir ei ddefnyddio i helpu i ysgogi newid pellach; c) mandad ar gyfer gweithredu gan y llywodraeth a phroses i ddwyn y llywodraeth i gyfrif a d) barn ar p'un a bod yr ymrwymiad i fod yn Genedl Masnach Deg yn ymrwymiad i newid parhaus - taith yn hytrach na diweddbwynt.

Datblygu'r meini prawf

Er y bu lefel o ddiddordeb ymysg cenhedloedd a rhanbarthau eraill ar gyfer y cysyniad o Genhedloedd Masnach Deg, hyd yn hyn, yr Alban a Chymru yw'r unig Genhedloedd Masnach Deg o hyd. Yn 2016, trodd y sylw at ehangu nifer y Cenhedloedd Masnach Deg a'r angen i adolygu'r meini prawf presennol. Cynhaliwyd cyfarfod yn Glasgow, a fynychwyd gan gynrychiolwyr o Sefydliadau Masnach Deg yng Nghanada, yr Iseldiroedd, Gogledd Iwerddon, Gwlad Pwyl, yr Alban, Sweden, a Chymru. Fe wnaethant gyfarfod i drafod beth oedd wedi cael ei wneud a beth y gellid ei ddatblygu i hyrwyddo egwyddorion Masnach Deg trwy ymgyrchoedd Cenhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg. Cynhaliwyd cyfarfod pellach y flwyddyn ganlynol yn y Gynhadledd Rhyngwladol Trefi Masnach Deg yn Saarbrucken, lle datblygodd mynychwyr ddatganiad safbwynt ar y cyd ymhellach. Amlinellodd y datganiad hwn wyth pwynt allweddol o gyd-ddealltwriaeth, gan grynhoi'r cytundebau a gafwyd yn Glasgow a Saarbrucken:

1. Mae angen i ymgyrchoedd Cenhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg fod yn organig, yn gynhwysol a chael eu harwain ar lawr gwlad. Lle mae ymgyrchoedd o'r fath wedi dod i'r amlwg, maent wedi cael eu harwain gan alwadau ymgyrchwyr i weithredu hyd at y lefel 'nesaf'.
2. Mae angen gwerth ychwanegol o ran cael ymgyrch Cenedl neu Ranbarth Masnach Deg
3. Mae'n rhaid i ymgyrch Cenedl neu Ranbarth Masnach Deg fod yn broses ddeinamig, yn gyfle am newid pellach, yn daith arloesol ac

yn llwyfan i ymgyrchu dros weithredu pellach.

4. Mae ganddo rôl arweinyddiaeth a chydlynu, sy'n cynnig lle i ddod ag ymgyrchwyr, cymdeithas sifil a llunwyr polisi at ei gilydd.
5. Er bod awydd i gael cyd-ddealltwriaeth o gysyniad a gwerth Cenhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg, mae'n hanfodol i unrhyw Genedl neu Ranbarth Masnach Deg eu bod yn berthnasol ac yn sensitif i'w lleoliad diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol eu hunain. Gellid datblygu canllawiau 'sylfaenol' sy'n cynrychioli ardaloedd lle gellid disgwyl y byddai Cenhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg yn weithredol. Fodd bynnag, byddai angen i fanylion y canllawiau fod yn berthnasol ac yn benodol i'r genedl neu'r rhanbarth penodol
6. Er bod awydd i symud ymlaen gyda'i gilydd mewn cydweithrediad wrth ddatblygu'r cysyniad o Genhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg, cydnabyddir na all unrhyw actorion allanol benderfynu ar natur a chymeriad ymgyrchoedd unigol,
7. Dylid rhoi ystyriaeth ganolog i gynhyrchwyr Masnach Deg mewn unrhyw ddealltwriaeth o Genhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg, a chydnabod y gwahaniaethau sylweddol rhwng cenhedloedd a rhanbarthau sy'n fwy o ddefnyddwyr neu gynhyrchwyr cynhyrchion Masnach Deg
8. Dylid defnyddio Nodau Datblygu Cynaliadwy/Agenda 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy i fframio ein dealltwriaeth a'n datblygiad o'r model o Genhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg

Roedd datganiad Saarbrucken hefyd yn cymeradwyo "meysydd i'w harchwilio ar gyfer canllawiau 'sylfaenol'" – set o chwe chategori a allai fod yn sail ar gyfer datblygu meini prawf diwygiedig. Y categorïau hyn oedd:

1. Ymgysylltu ac ymwybyddiaeth cymunedol, gan gynnwys y berthynas rhwng ymgyrchoedd Trefi Masnach Deg ac ymgyrchoedd Cenhedloedd a Rhanbarthau Masnach Deg
2. Ymgysylltu gwleidyddol a chymorth
3. Argaeledd a phrynu Masnach Deg
4. Ymwybyddiaeth gyffredinol o Fasnach Deg
5. Gweithgareddau sy'n cefnogi Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas

6. Cysylltiadau masnachu Cenhedloedd a Rhanbarthau.

Roedd trafodaethau dilynol yn ystyried esblygu'r pumed categori (gweithgareddau sy'n cefnogi Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas) yn gategori ehangach ar gydraddoldeb a chynwysoldeb. Daeth consensws i'r amlwg hefyd yn Saarbrucken, bod angen gwneud rhagor o waith ar sut y byddai statws Cenedl Masnach Deg yn cael ei asesu.

Yn 2018, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Gymru Masnach Deg adolygu ei statws Cenedl Masnach Deg, adolygiad a arweiniodd at lunio adroddiad Cymru Masnach Deg, "Cenedl Masnach Deg". Roedd yr adroddiad hwn yn destun trafodaeth mewn cyfres o ddigwyddiadau a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 2018. Daethpwyd â dirprwyaeth ryngwladol at ei gilydd i fyfyrio ymhellach ar ddatganiad safbwynt Saarbrucken, a chytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth (yn seiliedig ar destun Saarbrucken).

Fe wnaeth y drafodaeth ynghylch adolygu'r meini prawf arafu yn ystod y pandemig byd-eang. Fodd bynnag, yn 2021, rhoddwyd hwb newydd i'r broses, pan gefnogodd Llywodraeth Cymru a'r Alban Cymru Masnach Deg a Fforwm Masnach Deg yr Alban i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhyngwladol i adnewyddu meini prawf y Genedl Masnach Deg, i adlewyrchu uchelgeisiau Masnach Deg yn well ar gyfer y dyfodol; cryfhau'r dull cydweithredol gyda rhanddeiliaid posibl i sicrhau y gall gweinyddiaethau rhyngwladol gymhwyso meini prawf newydd; a gwella proses asesu'r meini prawf i sicrhau bod hawliadau'n ystyrlon ac yn gadarn.

Trwy gydol 2022 a 2023, arweiniodd Cymru Masnach Deg a Fforwm Masnach Deg yr Alban broses ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, er mwyn diwygio'r meini prawf. Cynhaliwyd adolygiad gan ymgynghorydd, Steve Brooks. Yn dilyn ei adolygiad, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid helaeth. Ymhlith y rhanddeiliaid a fu'n rhan o'r ymgysylltu oedd sefydliadau Masnach Deg ac ymgyrchwyr ar draws y byd, a'r rhai sydd â gwybodaeth a phrofiad o fesur gweithgareddau, canlyniadau ac effaith. Ymhlith y rhai a fu'n rhan o'r broses hon oedd Sefydliad Masnach Deg y Byd (WFTO), WFTO-Affrica a'r Dwyrain Canol, WFTO-Ewrop, y Swyddfa Eiriolaeth Masnach Deg (FTAO), y Sefydliad Masnach Deg, Rhwydwaith America Ladin a Charibïaidd o Gynhyrchwyr a Gweithwyr Bach Masnach Deg (CLAC), Defnyddiwr Moesegol, y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Cynghrair

Datblygu Rhyngwladol yr Alban (SIDA), Cymdeithas y Pridd, a Hub Cymru Africa. Cafwyd mewnbwn hefyd gan Dr Matthew Anderson o Brifysgol Portsmouth.

Arweiniodd y broses hon at gyhoeddi'r meini prawf diwygiedig gan Weinidogion Llywodraeth Cymru a'r Alban yn y digwyddiad yn Senedd Cymru ym mis Gorffennaf 2023, i nodi 15 mlynedd o statws Cenedl Masnach Deg, ac i gyhoeddi'r ddogfen hon a nodi'r mesurau a'r dangosyddion a'r broses asesu.

Meini prawf diwygiedig Cenedl Masnach Deg

Cenedl Masnach Deg ydy un ble...

1. **mae ymwybyddiaeth eang o Fasnach Deg;**
2. **mae ymgysylltiad sylweddol â Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas**
3. **mae cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu defnyddio a'u cynhyrchu**
4. **mae cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltiad â Masnach Deg**
5. **mae anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas yn cael eu herio gan Fasnach Deg**

Y meini prawf, targedau a'r dystiolaeth arfaethedig sy'n ofynnol

Isod, mae'r meini prawf a'r targedau arfaethedig, ynghyd â mesurau a dangosyddion arfaethedig. Fe'u lluniwyd yn dilyn ymgynghoriad helaeth â rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn cynnwys cymysgedd o dystiolaeth feintiol ac ansoddol, gan gynnwys ymchwil bleidleisio, astudiaethau achos, adroddiadau naratif, casglu data o ffynonellau allanol, ac ymchwil ddogfennol a bwrdd gwaith.

1. Mae ymwybyddiaeth eang o Fasnach Deg

Mae ymwybyddiaeth o Fasnach Deg yn sail hanfodol ar gyfer ymgysylltu ymhellach gyda Masnach Deg, ac ar gyfer prynu a chynhyrchu nwyddau Masnach Deg. Mae ymwybyddiaeth ynddo'i hun yn sylfaen gadarnhaol, ac yn dangos bod y cysyniad wedi'i hyrwyddo'n llwyddiannus.

Targedau

Mae 50% o'r boblogaeth yn ymwybodol o Fasnach Deg.

Ar bob cyfnod adnewyddu, rhaid i'r nifer hwn o'r boblogaeth gynyddu nes ei fod yn cyrraedd 75%, ac ar y pwynt hwnnw, mae angen ei gynnal o leiaf.

Tystiolaeth

Asesiad meintiol, sydd yn cael ei gynnal drwy arolwg barn neu gwmni ymchwil.

Gallai'r mesur hwn gael mesur 'cymorth unigol' opsiynol ac felly, gallai cenhedloedd ddewis mesur ymgysylltiad unigolion trwy bleidleisio a defnyddio triongl ymgysylltu'r Labordy Datblygu Ymgysylltiad.

Triongl ymgysylltu

1. Datgysylltu'n Llwyr
2. Ymgysylltu Rhyw Fymryn
3. Ymgysylltu o Safbwynt Gwybodaeth - Rhannu straeon trwy'r cyfryngau cymdeithasol neu lofnodi deisebau neu ysgrifennu at eu AS neu gynrychiolydd gwleidyddol.
4. Ymgysylltu o Safbwynt Ymddygiad - cyfrannu, gwirfoddoli ar gyfer cyrff anllywodraethol datblygu, mynychu digwyddiadau.
5. Ymgysylltu'n Llawn

2. Mae ymgysylltiad sylweddol â Masnach Deg ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas

Mae ymgysylltu'n mynd y tu hwnt i ymwybyddiaeth syml, ac mae angen cymryd rhan mewn Masnach Deg, gan gynnwys gweithgareddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth bellach, prynu a

chynhyrchu Masnach Deg. Er mwyn ystyried ymgysylltiad yn arwyddocaol ar lefel y genedl, mae angen iddo fod yn ddaearyddol eang a hefyd ar draws gwahanol sectorau o gymdeithas. Tra bod maen prawf I yn canolbwyntio ar ymwybyddiaeth unigol, mae'r maen prawf hwn yn seiliedig ar ymgysylltu ar y cyd/sefydliadol/grŵp. Byddai angen i bob cenedl, trwy eu corff cydlynu, ddiffinio eu diffiniad o ymgysylltu a'i arwyddocâd, yn unol â chyd-destun cymdeithasol, diwylliannol, economaidd a gwleidyddol eu cenedl.

Targedau

Mae gan 50% o ranbarthau/bwrdeistrefi/cantonau/awdurdodau lleol weithgareddau Masnach Deg yn digwydd ynddynt

Gweithgarwch ac ymgysylltu cenedlaethol mewn o leiaf tri o'r chwe maes canlynol:

Sector cyhoeddus, preifat, trydydd sector/ sector gwirfoddol, addysg ac ieuenctid, y celfyddydau a diwylliant, a chymdeithas sifil.

Tystiolaeth

Dylai tystiolaeth gael ei ddarparu gan gorff cydlynu Masnach Deg y genedl. Gallai hyn gynnwys:

- Nifer y cymunedau sy'n mynd ati i hyrwyddo Masnach Deg;
- Nifer y sefydliadau addysg sy'n ymwneud â Masnach Deg, gan gynnwys y nifer sy'n ymwneud â chynlluniau Masnach Deg ar gyfer ysgolion, colegau a phrifysgolion a gweithgareddau, gan gynnwys cynnwys Masnach Deg mewn gweithgareddau ehangach fel addysgu a dysgu dinasyddiaeth fyd-eang;
- Lefelau ymgysylltu'r sector cyhoeddus â Masnach Deg mewn polisi a gweithgareddau;
- Prynu a hyrwyddo cynyrch Masnach Deg gan y sector preifat; prynu a hyrwyddo cynhyrchion Masnach Deg gan y drydedd gymdeithas, a'r gymdeithas wirfoddol a sifil;
- Defnyddio cynhyrchion Masnach Deg mewn digwyddiadau a lleoliadau celfyddydol a diwylliant a hyrwyddo Masnach Deg i'r sector celfyddydau a diwylliant.

Gellid dangos hyn drwy:

- Nifer y llefydd sydd â statws Masnach Deg, neu sy'n weithgar wrth hyrwyddo Masnach Deg, gan gynnwys ymgyrchu digidol;
- Astudiaethau achos o grwpiau a sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau;

Cyfryngau cymdeithasol, y wasg a'r cyfryngau darlledu;

- Ddefnyddio egwyddorion archwilio cymdeithasol;
- Ddata pleidleisio;
- Asesu gweithgaredd ar raddfa o 1-5 o ddibwys iawn i bwysig iawn.

Mae cynhyrchion Masnach Deg yn cael eu defnyddio a'u cynhyrchu

Mae cynhyrchu, cyflenwi, prynu a defnyddio cynhyrchion Masnach Deg yn ganolog i lwyddiant Masnach Deg, ac yn cyfrannu at Nod Datblygu Cynaliadwy 12. Yn draddodiadol, mae rhai gwledydd wedi chwarae mwy o ran naill ai wrth gynhyrchu neu ddefnyddio. Mae tuedd tuag at fwy o wledydd yn fyd-eang yn cymryd rhan mewn cynhyrchu a defnyddio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o wledydd yn parhau i fod yn rhan sylweddol fwy mewn un na'r llall. Nid oes un mesur sefydledig o gynhyrchu na defnyddio, ond mae nifer o ddangosyddion defnyddiol.

Targedau

- Defnyddio - Cynnal / cynyddu lefel y defnydd o gynhyrchion Masnach Deg yn seiliedig ar feincnod sefydledig NEU osod meincnod os nad yw cenedl wedi gosod un cyn yr asesiad.
- Cynhyrchu -. Cynnal / cynyddu lefel cynhyrchu cynhyrchion Masnach Deg yn seiliedig ar feincnod sefydledig NEU osod meincnod os nad yw cenedl wedi gosod un cyn yr asesiad.

Tystiolaeth

Dylid coladu'r wybodaeth a'r data perthnasol gorau posibl, a allai gynnwys;

- Y data marchnad gorau posibl (lle bo ar gael) yn dangos lefelau cynhyrchu/prynu;
- Ymchwil defnyddwyr ar brynu a adroddir, gan gynnwys pwrpas a hawliwyd a dewis gweithredol;
- Adroddiad caffael y sector cyhoeddus yn dangos lefelau caffael Masnach Deg;
- Data ymgyrchu lle gallai fod ar gael sy'n dangos argaeledd cynhyrchion Masnach Deg;
- Nifer y siopau Masnach Deg neu foesegol sy'n gwerthu cynhyrchion Masnach Deg;
- Nifer y busnesau sy'n cynhyrchu cynnhyrchion Masnach Deg; Nifer y sefydliadau cynhyrchu neu gynhyrchwyr Masnach Deg cofrestredig neu

Fasnach Deg wedi'u dilysu;

- Swm y pris /premiwm Masnach Deg a dalwyd neu'r tunelledd a werthwyd ar delerau Masnach Deg gan grwpiau cynhyrchwyr.

4. Mae cefnogaeth wleidyddol ac ymgysylltiad â Masnach Deg

Mae cefnogaeth ac ymgysylltiad gwleidyddol ar lefel genedlaethol ac ar draws llywodraeth leol yn rhan hanfodol o fod yn Genedl Masnach Deg. Mae teipoleg ar gael ar gyfer asesu ymrwymiadau polisi cyhoeddus i Fasnach Deg:

Targedau

Rhaid i weinyddiaeth yr ardal ddaearyddol gyfan gyflawni math 4 o deipoleg polisi cyhoeddus (gweler uchod), gan gynyddu, mewn rhyw ffordd ar bob adnewyddiad, hyd at gyflawni math 1.

Rhaid i'r ddeddfwriaeth ac o leiaf 50% o lywodraethau/awdurdodau lleol / bwrdeistrefi ymgysylltu â Masnach Deg

Tystiolaeth

Adroddiad, gyda thystiolaeth o gyflawni'r targed uchod, gan gynnwys:

- Llywodraeth - cynnwys Masnach Deg ym mholisi'r llywodraeth - wedi'i fesur trwy ddogfennau polisi/strategaeth, gwefan y llywodraeth a chyfathrebu, cefnogaeth i rwydwaith cenedlaethol Masnach Deg
- Cynigion, dadleuon, cwestiynau mewn seneddau - wedi'u mesur trwy gofnod seneddol a hefyd, cefnogaeth gyhoeddus gan seneddwyr
- Llywodraeth leol - Cynigion, datganiadau o gefnogaeth, cefnogaeth i grwpiau Masnach Deg a gweithgareddau lleol, cynhwysiant mewn caffael, cefnogi cynghorwyr ac ati, gweithgareddau ac ati.

5. Mae anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas yn cael eu herio gan Fasnach Deg

Mae Masnach Deg yn ehangach na chynhyrchion Masnach Deg, ac mae diffiniad o Fasnach Deg yn cynnwys 'ymgyrchu dros newidiadau mewn rheolau ac arferion masnach ryngwladol

gonfensiynol.' Mae Masnach Deg yn cyfrannu at ymgyrchoedd cyfiawnder cymdeithasol ehangach, sy'n herio anghydraddoldebau byd-eang. Mae'r maen prawf hwn yn canolbwyntio ar y cyfraniad hwnnw at heriau ehangach i anghydraddoldebau. Byddai adroddiad naratif gan y corff cydlynu cenedlaethol yn caniatáu ar gyfer yr hyblygrwydd sydd ei angen ar gyfer pob gweinyddiaeth gan fod eu diwylliant, hanes a'u materion pwysig y dydd i gyd yn amrywio.

Targed

Mae gweithgareddau Masnach Deg yn herio o leiaf dau faes o anghydraddoldeb ehangach

Tystiolaeth

Adroddiad sy'n tynnu sylw at ba anghydraddoldebau mewn masnach fyd-eang a chymdeithas sydd wedi'u herio, a sut y cawsant eu herio gan gynnwys astudiaethau achos allweddol a grëwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Y meysydd y gellid eu cynnwys yw:

- Gwrth-hiliaeth
- Argyfwng Hinsawdd,
- Etifeddiaethau trefedigaethol,
- Erydiad diwylliannol,
- Anghydbwysedd rhyw,
- Anghydraddoldebau byd-eang,
- Rhagfarnau hanesyddol,
- Ieithoedd lleiafrifol,
- Cyfiawnder masnach,
- Cydnerthedd cynhyrchwyr drwy'r pandemig.

Cynnig ar gyfer y broses asesu

Tynnodd yr ymgynghorydd annibynnol a adolygodd feini prawf y Genedl Masnach Deg sylw at y broses asesu a gynhaliwyd yn yr Alban yn 2012/13 a 2016/17 fel "astudiaeth achos ar sut y gall cenedl asesu ei chynnydd yn erbyn y meini prawf mewn ffordd sy'n dryloyw ac yn annibynnol."

Roedd y broses wedi'i seilio ar dechnegau cyfrifyddu ac archwilio cymdeithasol. Fforwm Masnach Deg yr Alban fel y corff cydlynu cenedlaethol, oedd yn gyfrifol am ddrafftio'r adroddiad, a oedd yn rhoi manylion ar y dystiolaeth o berfformiad ac effaith. Roedd hyn yn cynnwys data a gasglwyd trwy bleidleisio, cynnal ymchwil desg, arolygon a chyfweliadau, cynnal ymchwil ddogfennol a gweithio gyda'r mudiad i

ddatblygu astudiaethau achos. Craffwyd ar yr adroddiad hwn gan Banel Asesu annibynnol a ffurfiwyd gan y Fforwm. Adolygodd y Panel Asesu y dystiolaeth yn fanwl, gan ofyn am wybodaeth neu eglurhad ychwanegol yn ôl yr angen i asesu'r adroddiad yn erbyn meini prawf y Genedl Masnach Deg. Roedd y Panel Asesu ar y ddau achlysur, yn cynnwys sbectrwm eang o gynrychioliadau, gan gynnwys unigolion ag arbenigedd mewn cyfrifyddu ac archwilio cymdeithasol, astudiaeth academaidd, sefydliadau Masnach Deg a chyrff cyhoeddus.

Cyhoeddwyd yr Adroddiad Asesu, ac roedd ar gael i'r cyhoedd graffu arno. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Gweinidog perthnasol er mwyn i gyhoeddiad gael ei wneud ynghylch cyflawni neu gynnal statws Cenedl Masnach Deg.

Mae'r broses hon yn gwahanu'r broses o gasglu tystiolaeth (a gyflawnir gan y corff cydlynu); y broses asesu (a gyflawnir gan Banel Asesu Annibynnol); a'r cyhoeddiad (a wneir gan y Gweinidog perthnasol). Y cynnig yw defnyddio'r un broses hon, ond cynnwys yr angen am gynrychiolaeth gan sefydliadau cynhyrchwyr mewn unrhyw Banel Asesu. Dylai hyn gynnwys egwyddorion tryloywder, annibyniaeth, a chyfranogiad actorion o wledydd incwm isel a chanolig yn y broses.



Yn flaenorol, ni fu unrhyw broses gytunedig ar gyfer adnewyddu. Mae angen dod o hyd i gydbwysedd rhwng sicrhau yn rheolaidd bod y meini prawf yn parhau i gael eu bodloni, â

pheidio â threthu adnoddau drwy gynnal asesiadau'n rhy rheolaidd. Rydym yn argymell adnewyddu bob 5-10 mlynedd. Byddai hyn yn caniatáu lefel o hyder yng nghadernid y broses asesu, a hyblygrwydd i wahanol genhedloedd gynnal y broses asesu o fewn adnoddau ariannol ac amser.